Aduno Cyn-filwyr 2
Ffurflen gais

Croeso i'r rhaglen Aduno Cyn-filwyr 2

Ar ôl i chi lenwi'r ffurflen hon, anfonwch hi yn ôl atom ni:

Aduno Cyn-filwyr 2
Cronfa Loteri Fawr
2 St James Gate
Newcastle Upon Tyne
NE1 4BE

Nid oes gan y rhaglen derfyn amser ymgeisio penodol ar hyn o bryd.

Ysgrifennwch yn glir mewn inc neu deip du. Sicrhewch eich bod yn cadw copi o'ch ffurflen gais wedi'i llanw ar gyfer eich cofnodion.

Os oes gennych unrhyw gwestiynau am Aduno Cyn-filwyr 2 gallwch gysylltu â ni ar linell gymorth Aduno Cyn-filwyr 2 ar 0845 00 00 121.

Mae'r ffurflen hon ar gael yn Braille, ar dap sain, ar ddisg neu mewn print mawr hefyd, ffoniwch ni ar 0845 00 00 121 (ffôn testun 0845 602 1659 ar gyfer y rheini â nam ar eu clyw).

Yn dyfarnu arian
Y Loteri Genedlaethol
Awarding funds from
The National Lottery®

Cyfeirnod Unigryw (at ddefnydd swyddfa yn unig):

Beth yw Aduno Cyn-filwyr 2?

Sefydlwyd Aduno Cyn-filwyr 2 i helpu cyn-filwyr i gofio pen-blwyddi digwyddiadau a arweiniodd at ddiwedd yr Ail Ryfel Byd. Mae cyn-filwyr yn bobl a brofodd gwasanaeth actif gyda Lluoedd Arfog Prydeinig a Chynghreiriol, neu ochr yn ochr â hwy, yn ystod yr Ail Ryfel Byd.

Sut y bydd Aduno Cyn-filwyr 2 yn helpu?

Byddwn yn rhoi grantiau tuag at gostau teithio a llety (gan gynnwys yswiriant) ar gyfer ymweliadau coffaol â'r ardaloedd lle welodd Lluoedd Arfog Prydain wasanaeth actif yn ystod yr Ail Ryfel Byd ac i fynychu gwasanaethau coffaol cydnabyddedig yn y DU. Bydd swm penodol ar gael ar gyfer pob cyn-filwr, neu wragedd gweddw neu wŷr gweddw cyn-filwyr, tuag at gost eu hymweliad. Byddwn hefyd yn cyfrannu at gostau teithio a llety priod a gofalwyr. Felly er mwyn i gynifer o gyn-filwyr â phosibl gael y cyfle hwn, dim ond un ymweliad y gallwn ei ariannu ar gyfer pob cyn-filwr, gwraig weddw neu ŵr gweddw. Byddwn yn talu am deithiau trwy gydol 2012. Gallwn roi grant hyd yn oed os ydych chi eisoes wedi archebu neu dalu am eich taith, cyhyd â'ch bod yn bwriadu teithio rhwng y dyddiadau hyn.

Faint o grant a fydd yn cael ei gynnig?

Mae gwahanol symiau o arian ar gael ar gyfer gwahanol leoliadau.

Lleoliad	Unigolyn (un person)	Unigolyn ynghyd â phriod neu ofalwr (dau berson)	Unigolyn ynghyd â phriod a gofalwr (tri o bobl)
Deyrnas Unedig	£150	£225	£330
Gogledd a Gorllewin Ewrop	£500	£875	£1,300
Môr y Canoldir a Gogledd Affrica	£800	£1,425	£2,200
Yr Aifft, Libya a'r Dwyrain Canol	£1,500	£2,825	£4,250
Y Dwyrain Pell a Gweddill y Byd	£2,000	£3,700	£5,500

Byddwn yn talu am uchafswm o ddau o bobl (priod a/neu ofalwr) i fynd gydag unrhyw gyn-filwr, gwraig weddw neu ŵr gweddw.

Pwy all ymgeisio?

Fel arfer byddwn yn dyfarnu grantiau i sefydliadau cyn-filwyr er mwyn trefnu ymweliadau ar ran grwpiau o gyn-filwyr. Byddwn hefyd yn ystyried ceisiadau gan grwpiau bach neu unigolion. Os bydd mwy na 10 o bobl yn teithio, gallwn wneud grantiau ychwanegol o £250 i dalu am gostau trefnu'r ymweliad.

Dylai cyn-filwyr sy'n byw yng Ngweriniaeth Iwerddon ac sy'n dymuno ymgeisio i Aduno Cyn-filwyr 2 gysylltu â'r Lleng Brydeinig Frenhinol yn Nulyn ar 01 671 3044 am ragor o wybodaeth.

Sut i ymgeisio

Er mwyn ymgeisio, llanwch y ffurflen gais fer a'i dychwelyd at y cyfeiriad ar y dudalen blaen.

Beth sy'n digwydd nesaf?

Byddwn yn rhoi gwybod i chi cyn gynted ag y byddwn yn derbyn eich ffurflen gais. Yna byddwn yn:

1. Gwirio gyda sefydliad cyn-filwyr bod yr holl deithwyr yn gymwys ar gyfer yr arian y maent wedi ymgeisio amdano.
2. Byddwn yn dweud wrthych chi, o fewn chwe wythnos i dderbyn eich ffurflen gais wedi'i llanw, faint o arian y byddwn yn ei roi i chi.
3. Talu'r arian i'ch cyfrif banc unwaith yr ydym wedi gweld eich dogfennau teithio.

Addasrwydd i deithio

Fel arfer bydd rhan fwyaf o gwmnïau teithio yn gofyn am dystysgrif meddyg ar gyfer addasrwydd i deithio. Nid oes yn rhaid i chi anfon hon atom ni ond rydym yn eich cynghori i weld eich meddyg cyn i chi deithio. Eich cyfrifoldeb chi yw trefnu yswiriant teithio.

Rydym yn annog cyn-filwyr i rannu eu stori gyda phobl iau trwy ein prosiect "To Gorffennol, Eich Dyfodol'. Byddwn yn dweud mwy wrthych am hyn os byddwch yn derbyn grant oddi wrthym ni.

1. Pwy sy'n trefnu'r ymweliad hwn?

Rwyf yn trefnu'r ymweliad hwn fy hun ac nid oes unrhyw sefydliadau i gyn-filwyr yn gysylltiedig ✔

neu

Mae'r ymweliad hwn yn cael ei drefnu gan grŵp neu sefydliad i gyn-filwyr. ☐

Enw'r sefydliad (os yw'n berthnasol)

2. Manylion cyswllt ar gyfer yr unigolyn sy'n trefnu'r ymweliad.

Teitl | Enw cyntaf | Cyfenw

Cyfeiriad

Côd post

Cyfeiriad gwefan

Cyfeiriad e-bost

Swydd yn y sefydliad (os yw'n berthnasol)

Dyddiad geni

Ffôn/Ffôn Testun

Dydd

Nos

3. Faint o bobl sy'n mynd ar yr ymweliad hwn?

4. Pa brofiad(au) rhyfel y mae'r ymweliad yn bwriadu eu cofáu?

Theatr gweithredu:

- Gogledd/Gorllewin Ewrop ☐
- Môr y Canoldir a Gogledd Affrica ☐
- Yr Aifft/Libya a'r Dwyrain Canol ☐
- Y Dwyrain Pell/Gweddill y Byd ☐

Nodiadau Cymorth

Ticiwch y blwch sy'n berthnasol i chi.

Rhowch enw'r grŵp neu sefydliad i gyn-filwyr sy'n trefnu eich ymweliad os yw hyn yn berthnasol i chi.

Dyma'r unigolyn a fydd yn llofnodi'r ffurflen hon ac y gallwn gysylltu â hwy am ragor o wybodaeth os byddwn ei hangen.

Os ydych chi'n trefnu'r ymweliad eich hunan, rhowch eich manylion i ni.

Os yw rhywun o'r grŵp neu sefydliad i gyn-filwyr yn trefnu'r ymweliad, rhowch eu manylion i ni.

Dim ond gwefan a chyfeiriadau e-bost y mae angen i chi eu rhoi os oes gennych rai.

Rydym yn gofyn i chi roi rhagor o wybodaeth i ni ynghylch y bobl sy'n mynd ar yr ymweliad yng nghwestiwn 9.

Rydym angen y wybodaeth hon i'n helpu i sicrhau eich bod yn ymgeisio i'r rhaglen gywir.

Ticiwch un blwch yn unig.

Gweithred

Dywedwch wrthym ym mha weithred y bu'r cyn-filwyr yn gysylltiedig â hi, D-Day, Normandi, Dunkirk, Brwydr dros yr Eidal, ymgyrch Byrma, gosgordd llynges.

Lleoliad(au)

Dywedwch wrthym lle wnaeth y cyn-filwyr wasanaethu neu ble'r oeddynt wedi'u sefydlu, er enghraifft, gwersylloedd Alexandria, Malta, Singapore, POW.

5. Lle'r ydych chi'n bwriadu mynd ar ymweliad?

Byddwch mor benodol â phosibl, er enghraifft:

Cofeb Traeth Juno
St Aubin sur Mer
Normandi
Ffrainc
neu

Cofeb y Lluoedd Arfog

Coedardd Genedlaethol

Swydd Stafford.

Ticiwch un blwch sy'n berthnasol i chi.

Byddwn yn talu am deithiau trwy gydol 2012.

Os yw'ch ymweliad wedi bod yn barod, anfonwch eich derbynebau ar gyfer eich costau teithio a llety.

Os ydych chi eisoes wedi archebu eich ymweliad, anfonwch gopi o'ch cadarnhad archebu.

Os nad ydych chi wedi archebu eich ymweliad eto, bydd angen i chi anfon copi o'ch cadarnhad archebu cyn y byddwn yn talu'r grant.

Unwaith y mae'ch ymweliad wedi bod, byddwn yn gofyn i gael gweld eich derbynebau.

6. Ym mha gyfnod yr ydych chi gyda'ch trefniadau teithio?

☐ Mae'r ymweliad eisoes wedi bod.

Pa bryd ddechreuodd eich ymweliad? Dydd Mis Blwyddyn

☐ Rydym wedi archebu'r ymweliad ond nid ydym wedi teithio eto.

Pa bryd y disgwyliwch ddechrau eich ymweliad? Dydd Mis Blwyddyn

☐ Nid ydym wedi archebu ein hymweliad eto.

Pa bryd y disgwyliwch ddechrau eich ymweliad? Dydd Mis Blwyddyn

7. Lles personol

A oes unrhyw un anabl yn mynd ar yr ymweliad?

☐ Oes ☐ Nac oes

A fydd unrhyw un yn mynd ar yr ymwelid sydd angen gofal arbennig yn ystod yr ymweliad?

☐ Oes ☐ Nac oes

Gallwn dalu am un gofalwr ar gyfer pob cyn-filwr sy'n mynd ar yr ymweliad.

Disgwyliwn i bwy bynnag sy'n trefnu'r ymweliad wneud trefniadau ar gyfer unrhyw ofal arbennig.

Dylech gynnwys enw llawn a chod post unrhyw ofalwyr a fydd yn cael eu cynnwys yn yr ymweliad yng nghwestiwn 9.

8. Manylion Banc

Rhowch fanylion y cyfrif banc neu gymdeithas adeiladu y dymunwch i ni dalu'r arian i mewn iddo.

Enw'r Cyfrif	
Enw'r banc neu'r gymdeithas adeiladu	
Cyfeiriad y banc neu'r gymdeithas adeiladu	
Côd post	
Côd Didoli	☐☐ ☐☐ ☐☐
Rhif cyfrif banc	
Rhif cofrestru'r gymdeithas adeiladu	

Rhaid i sefydliadau anfon cyfriflen banc wreiddiol nad yw'n hŷn na thri mis oed i gadarnhau'r manylion hyn.

Os ydych chi'n ymgeisio fel unigolyn, efallai y byddwn yn gofyn am gyfriflen pan fyddwn yn derbyn eich cais. Nid oes angen i chi anfon cyfriflen gyda'ch ffurflen gais.

Byddwn yn dychwelyd unrhyw gyfriflenni gwreiddiol y byddwch yn eu hanfon atom ni.

Dim ond i gyfrifon banc neu gymdeithas adeiladu y gallwn wneud taliadau.

9. Manylion teithwyr

Defnyddiwch y dudalen hon i roi manylion yr holl bobl sy'n mynd ar yr ymweliad. Rhowch gymaint o wybodaeth â phosibl. Byddwn angen enwau llawn yr holl bobl sy'n mynd ar yr ymweliad a dyddiad geni'r cyn-filwr o leiaf.

Dim ond costau teithio a llety ar gyfer pobl sy'n byw yn y DU (gan gynnwys Ynysoedd y Sianel ac Ynys Manaw) neu Weriniaeth Iwerddon y byddwn yn talu amdanynt.

Os ydych chi angen dalenni ychwanegol, gallwch lungopïo tudalen 6 (cyn i chi ei llanw), lawr lwytho copi o'n gwefan yn www.cronfaloterifawr.org.uk neu ffonio'r llinell gymorth ar 0845 00 00 121. Yn y blwch ar dop tudalen 6, ysgrifennwch enw a chyfeiriad yr unigolyn sy'n trefnu'r ymweliad a nifer y dalenni ychwanegol yr ydych chi wedi'u defnyddio.

Enw a chyfeiriad yr unigolyn arweiniol

Nifer y dalenni ychwanegol

Cyn-filwr 1af
Enw Llawn

Dyddiad geni Dydd Mis Blwyddyn

Côd post

Rheng

Rhif gwasanaeth

Gwasanaeth neu Gatrawd ac uned*

Cyfnod gwasanaethu Rhwng 19 a 19

Brasamcan o'r dyddiad rhyddhau

Medalau neu addurniadau

2il Gyn-filwr
Enw Llawn

Dyddiad geni Dydd Mis Blwyddyn

Côd post

Rheng

Rhif gwasanaeth

Gwasanaeth neu Gatrawd ac uned*

Cyfnod gwasanaethu Rhwng 19 a 19

Brasamcan o'r dyddiad rhyddhau

Medalau neu addurniadau

3ydd Cyn-filwr
Enw Llawn

Dyddiad geni Dydd Mis Blwyddyn

Côd post

Rheng

Rhif gwasanaeth

Gwasanaeth neu Gatrawd ac uned*

Cyfnod gwasanaethu Rhwng 19 a 19

Brasamcan o'r dyddiad rhyddhau

Medalau neu addurniadau

Priod, gwraig weddw neu ŵr gweddw
Enw Llawn

Côd post

Os ydych chi'n wraig weddw neu'n ŵr gweddw, ym mha flwyddyn y bu farw eich gŵr neu wraig?

A ydych chi'n derbyn pensiwn rhyfel gwraig weddw?

Ydw Nac ydw

Priod, gwraig weddw neu ŵr gweddw
Enw Llawn

Côd post

Os ydych chi'n wraig weddw neu'n ŵr gweddw, ym mha flwyddyn y bu farw eich gŵr neu wraig?

A ydych chi'n derbyn pensiwn rhyfel gwraig weddw?

Ydw Nac ydw

Priod, gwraig weddw neu ŵr gweddw
Enw Llawn

Côd post

Os ydych chi'n wraig weddw neu'n ŵr gweddw, ym mha flwyddyn y bu farw eich gŵr neu wraig?

A ydych chi'n derbyn pensiwn rhyfel gwraig weddw?

Ydw Nac ydw

Gofalwr
Enw Llawn

Côd post

Gofalwr
Enw Llawn

Côd post

Gofalwr
Enw Llawn

Côd post

Nifer y bobl ar y dudalen hon sy'n mynd ar yr ymweliad.

Cyfanswm nifer y bobl sy'n mynd ar yr ymweliad (dylai'r rhif hwn fod yr un peth â'r rhif yng nghwestiwn 3).

*Enghreifftiau o Wasanaeth neu Gatrawd ac uned: RAF Squadron, 2Bn. South Staffs neu Royal Navy, HMS Kingfisher neu 48 Cdo Royal Marines neu Merchant Navy Ship.

Cytundeb Grant

Cadarnhaf hyd eithaf fy ngwybodaeth a chred, bod yr holl wybodaeth yn y ffurflen gais hon ac mewn unrhyw amgaeëdigion yn wir ac yn gywir. Deallaf y gallwch ofyn am wybodaeth ychwanegol ar unrhyw un pryd yn ystod y broses. Os bydd y cais hwn yn llwyddiannus, byddaf i/byddwn ni yn cadw at y telerau ac amodau a ganlyn. Deallaf fod hwn yn gytundeb rhyngof i (neu'r sefydliad a enwir ar dudalen un y ffurflen gais hon), a'r Gronfa Loteri Fawr, a elwir yn "chi" yn y cytundeb hwn.

- Byddaf i/Byddwn ni yn defnyddio'r grant yn gyfan gwbl at y dibenion a amlinellir yn y ffurflen gais hon. Bydd y llythyr sy'n dweud wrthyf i/wrthym ni ynghylch y grant hefyd yn esbonio os ydych chi eisiau i ni newid unrhyw ran o'r ffurflen gais hon.
- Ni fyddaf i/Ni fyddwn ni yn gwneud unrhyw newidiadau i unrhyw beth ynghylch yr ymweliad, gan gynnwys y bobl sy'n cymryd rhan, y lleoliad neu'r dyddiad, heb dderbyn eich cytundeb ysgrifenedig yn gyntaf.
- Os na fydd unrhyw un a enwir ar y ffurflen gais hon yn mynd ar yr ymweliad, byddaf i/byddwn ni yn eich hysbysu chi a byddwn yn dychwelyd cyfran honno o'r grant i chi'n brydlon.
- Byddaf i/Byddwn ni yn eich hysbysu ynghylch unrhyw newidiadau i'r cyfrif banc neu gymdeithas adeiladu a nodir yn y ffurflen gais.
- Rwyf i/Rydym ni yn deall mai dim ond i'r cyfrif banc neu gymdeithas adeiladu y byddwch chi'n gwneud y taliad.
- Byddaf i/Byddwn ni yn cadw yswiriant digonol bob amser yn sicrwydd drosof i/drosom ni wrth ddefnyddio'r grant at y dibenion a ddisgrifir yn y ffurflen gais hon.
- Rwyf i/Rydym ni yn cydsynio i unrhyw gyhoeddusrwydd ynghylch y grant a allai fod yn ofynnol o bryd i'w gilydd. Gallwch ymgymryd ag unrhyw fath o gyhoeddusrwydd ynghylch fy/ein grant. Rwyf i/Rydym ni yn cytuno i wneud beth bynnag yr ydych chi'n gofyn yn rhesymol er mwyn cynorthwyo gydag unrhyw gyhoeddusrwydd o'r fath.
- Rwyf i/Rydym ni yn cytuno i gyfrannu deunyddiau i agweddau addysgiadol ar y rhaglen Aduno Cyn-filwyr 2 os byddwch yn gofyn i ni. Yn unol â'r Ddeddf Diogelu Data, byddwn yn sicrhau cydsyniad penodol gan yr holl wrthrychau i ddefnyddio eu delwedd ffotograff mewn unrhyw un o'r deunyddiau hyn.
- Fe allwch chi rannu gwybodaeth ynghylch fy/ein cais a grant gyda sefydliadau cyn-filwyr ac unrhyw grwpiau eraill o'ch dewis ynghyd ag aelodau o'r cyhoedd sy'n gwneud cais am wybodaeth o dan y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000. Hwyrach y bydd manylion y grant a sut yr wyf/rydym wedi'i ddefnyddio yn cael eu darlledu ar y teledu, ar ein gwefan, mewn papurau newydd a thrwy gyfryngau eraill.
- Rwyf i/Rydym ni yn deall na fyddwch yn cynyddu'r grant os bydd y prisiau yn cynyddu neu y byddaf i/byddwn ni yn gorwario.
- Rwyf i/Rydym ni yn deall wrth wneud y grant hwn, nad ydych chi'n ymrwymo i ddarparu unrhyw grantiau pellach.
- Byddaf i/Byddwn ni yn cwblhau adroddiad byr ar yr ymweliad os gofynnir i ni wneud hynny, a darparu derbynebau neu unrhyw ddogfennau perthnasol eraill yn ôl y gofyn.
- Rwyf i/Rydym ni yn deall y gallech chi ddal grant yn ôl neu ofyn i ni ad-dalu grant, yn gyfan neu'n rhannol, o dan yr amgylchiadau isod:
  - os byddaf i/byddwn ni yn methu â chadw at y Cytundeb hwn mewn unrhyw ffordd.
  - os llanwyd y ffurflen hon yn gwbl anonest, neu os yw'r dogfennau ategol yn cynnwys gwybodaeth ffug neu sy'n fwriadol gamarweiniol.
  - os dewch chi'n ymwybodol o unrhyw weithredoedd gennyf i/gennym ni a allai yn eich barn chi greu anfri arnoch chi fel dosbarthwr arian cyhoeddus neu fel corff wedi'i ariannu gan y Llywodraeth
- Bydd y telerau a'r amodau hyn yn berthnasol hyd nes y byddaf i/byddwn ni wedi gwario'r holl grant a/neu hyd nes eich bod wedi derbyn yr holl wybodaeth yr ydych chi wedi gofyn amdani, pa bynnag un fydd olaf.
- Rwyf i/Rydym ni'n deall os yw'r cytundeb hwn yn berthnasol i fwy nac un person yna bydd y telerau ac amodau yn berthnasol i ni gyd gyda'n gilydd neu ar wahân.
- Rwyf i/Rydym ni yn deall na ellir gorfodi'r telerau ac amodau yn y cytundeb hwn gan unrhyw un ac eithrio gennyf i/gennym ni a chi.

Llofnod yr unigolyn sy'n trefnu'r daith (yr unigolyn a enwir yng nghwestiwn 2)

Enw (wedi'i brintio)

Dyddiad

Diogelu data a rhyddid gwybodaeth

Diogelu Data

Byddwn yn defnyddio'r wybodaeth a rowch i ni ar y ffurflen gais hon a dogfennau ategol, yn ystod asesu ac yn ystod oes eich grant (os dyfernir un i chi) er mwyn asesu, gweinyddu a dadansoddi grantiau ac at ein dibenion ymchwil ein hunain.

Efallai y byddwn yn rhoi copïau o'r holl wybodaeth hon, neu ran ohoni, i unigolion a sefydliadau y byddwn yn ymgynghori â hwy wrth asesu ceisiadau, monitro grantiau a gwerthuso prosesau ac effeithiau ariannu. Gallai'r sefydliadau hyn gynnwys cyfrifwyr, gwerthuswyr allanol a sefydliadau neu grwpiau eraill sy'n gysylltiedig â chyflwyno'r prosiect. Efallai y byddwn hefyd yn rhannu gwybodaeth gyda dosbarthwyr eraill y Loteri, adrannau'r llywodraeth, sefydliadau sy'n darparu arian cyfatebol a sefydliadau ac unigolion eraill gyda diddordeb cyfreithiol mewn ceisiadau a grantiau'r Loteri, neu er mwyn atal neu ddatgelu twyll.

Os dyfernir grant i chi, byddwn fel arfer yn cyhoeddi manylion ynglŷn â'r grant gan gynnwys y swm yr ydym wedi'i roi i chi, a chrynodeb o'r gweithgaredd y byddwch yn ymgymryd ag ef gyda'r arian hwnnw. Os byddwn yn dyfarnu grant i Sefydliad Cyn-filwyr yna byddwn yn nodi enw eich grŵp. Os ydym wedi rhoi grant i chi yn unigol, yna fel arfer ni fyddwn yn defnyddio'ch enw ond byddwn yn nodi'r ardal awdurdod lleol neu dref yr ydych chi'n byw ynddynt.

Efallai y byddwn yn trosglwyddo gwybodaeth i gwmnïau teledu, papurau newydd a chyfryngau eraill. Dywedwch wrthym os oes gennych bryderon ynglŷn â ni'n gwneud hyn yma:

Efallai y byddwn yn defnyddio'r data y byddwch yn ei ddarparu at ein dibenion ymchwil ein hunain. Rydym yn cydnabod yr angen i gadw cyfrinachedd grwpiau agored i niwed ac ni fydd eu manylion yn cael eu cyhoeddi mewn unrhyw ffordd, ac eithrio'r hyn sy'n ofynnol o dan y gyfraith.

Deddf Rhyddid Gwybodaeth

Mae'r Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 yn rhoi'r hawl i aelodau'r cyhoedd ofyn am unrhyw wybodaeth yr ydym yn ei chadw. Mae hyn yn cynnwys gwybodaeth a dderbynnir gan drydydd partïon, megis, ond heb fod wedi'i chyfyngu, i ymgeiswyr am grant, deiliaid grant, contractwyr a phobl sy'n gwneud cwyn.

Os gofynnir am wybodaeth o dan y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth byddwn yn ei rhyddhau, yn amodol ar eithriadau; er mae'n bosibl y byddwn yn dewis ymgynghori gyda chi yn gyntaf. Os ydych chi'n meddwl bod gwybodaeth yr ydych chi'n ei darparu wedi'i heithrio rhag cael ei rhyddhau os gofynnir amdani, dylech ein hysbysu wrth i chi ymgeisio.

Bydd eich llofnodion ar y ffurflen hon yn cael eu cymryd fel cadarnhad eich bod yn deall ein hymrwymiadau ni o dan y Ddeddf Diogelu Data 1998 a'r Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 a'ch bod yn derbyn na fyddwn yn atebol am unrhyw golled neu niwed a ddigwydd i chi yn unol â'n ymrwymiadau o dan y ddeddf berthnasol.

Cymhwyster

Byddwn yn gweithio gyda sefydliad cyn-filwyr a fydd yn gwirio'r wybodaeth yn y ffurflen gais hon ac a fydd yn cadarnhau bod y bobl a enwir yma yn gymwys ar gyfer yr ariannu.

I'w lanw gan yr ymgynghorydd cymhwyster.

Cadarnhaf fy mod wedi gwirio bod y bobl a enwir yn y ffurflen gais hon yn gymwys i dderbyn grant yn unol â meini prawf y rhaglen.

Llofnod

Dyddiad